Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 190 (Cy. 41)

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau Terfynau Ffioedd a Benthyciadau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio—

(a) Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015"),

(b) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017"), ac

(c) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018").

Mae Rheoliadau 2015 yn rhagnodi'r uchafswm y gall sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a chanddynt gynllun ffioedd a mynediad a gymeradwywyd mewn grym ("sefydliadau rheoleiddiedig") ei godi drwy ffioedd dysgu ar gyfer cyrsiau israddedig llawnamser. Mae Rheoliadau 2015 hefyd yn rhagnodi uchafsymiau is mewn cysylltiad â chyrsiau penodol.

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau 2015 i gynyddu pob uchafswm rhagnodedig o'r flwyddyn academaidd 2025/26 ymlaen.

Mae Rheoliadau 2017 yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr cymwys sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig sy'n dechrau cyn 1 Awst 2018. Mae Rheoliadau 2018 yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr cymwys sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2018.

Mae rheoliadau 3 a 4 yn diwygio Rheoliadau 2017 a Rheoliadau 2018 yn y drefn honno i gynyddu uchafswm y cymorth at ffioedd dysgu sydd ar gael o'r flwyddyn academaidd 2025/26 ymlaen i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â chyrsiau mewn—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) sefydliadau rheoleiddiedig, i gyd-fynd â'r cynnydd yn yr uchafsymiau rhagnodedig o dan Reoliadau 2015 o ganlyniad i'r diwygiadau a wneir gan reoliad 2,

(b) sefydliadau addysg uwch a darparwyr addysg uwch eraill a reoleiddir mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig, i gyd-fynd â'r cynnydd yn y symiau y gall sefydliadau a darparwyr o'r fath eu codi drwy ffioedd dysgu, ac

(c) sefydliadau preifat yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Ariannu a Strategaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 190 (Cy. 41)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau Terfynau Ffioedd a Benthyciadau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *19 Chwefror 2025* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *21 Chwefror 2025* |
| *Yn dod i rym* | *17 Mawrth 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22(1)(a) a (2)(b), a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), a phwerau a roddir iddynt o dan adrannau 5(3) a 55(2) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015(**3**).

(**1**) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22(1) gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), adran 146(2)(a). *Gweler* adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(1) a (2)(b) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru, gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p. 8). Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) 2015 dccc 1. *Gweler* adran 57(1) am y diffiniadau o "rhagnodedig" ac "a ragnodir" a "rheoliadau".

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Enwi, dod i rym a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau Terfynau Ffioedd a Benthyciadau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 17 Mawrth 2025.

(3) Mae rheoliad 3 yn gymwys mewn perthynas â darparu cymorth i fyfyriwr mewn perthynas â blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2025, pa un a wneir unrhyw beth a wneir o dan y Rheoliadau hyn cyn, ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw ai peidio.

**Diwygio Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3, yn Nhabl 1—

(a) yng Ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2024" mewnosoder "ond cyn 1 Awst 2025";

(b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

| | |
|---|---|
| "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2025 | £9,535" |

(3) Yn rheoliad 4(2), yn Nhabl 2—

(a) yng Ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2024" mewnosoder "ond cyn 1 Awst 2025";

(b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

| | |
|---|---|
| "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2025 | £4,765" |

(4) Yn rheoliad 5(2), yn Nhabl 3—

(a) yng Ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2024" mewnosoder "ond cyn 1 Awst 2025";

(b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

| | |
|---|---|
| "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2025 | £1,905" |

(5) Yn rheoliad 6(2), yn Nhabl 4—

(a) yng Ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2024" mewnosoder "ond cyn 1 Awst 2025";

(b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

(**1**) O.S. 2015/1496 (Cy. 168), a ddiwygiwyd gan O.S. 2024/144 (Cy. 31).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | |
|---|---|
| "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2025 | £1,430" |

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 20 (benthyciad ychwanegol at ffioedd mewn perthynas â chyrsiau sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2012)—

(a) ym mharagraff (3)(a), yn lle "£250" rhodder "£535";

(b) ym mharagraff (4)(a), yn lle "£125" rhodder "£265";

(c) ym mharagraff (5)(a), yn lle "£50" rhodder "£105";

(d) ym mharagraff (6)(a), yn lle "£35" rhodder "£80".

(3) Yn rheoliad 21 (benthyciad newydd at ffioedd sefydliad preifat)—

(a) ym mharagraff (3)(a), yn lle "£6,165" rhodder "£6,355";

(b) ym mharagraff (4)(a), yn lle "£3,080" rhodder "£3,175";

(c) ym mharagraff (5)(a), yn lle "£1,230" rhodder "£1,270";

(d) ym mharagraff (6)(a), yn lle "£920" rhodder "£950".

(4) Yn rheoliad 22 (benthyciad at ffioedd mynediad graddedig carlam)—

(a) ym mharagraff (3), yn lle "£5,535" rhodder "£5,785";

(b) ym mharagraff (5)(a), yn lle "£250" rhodder "£285".

(5) Yn rheoliad 86 (benthyciad newydd at ffioedd rhan-amser)—

(a) ym mharagraff (4)(a), yn lle "£6,935" rhodder "£7,145";

(b) ym mharagraff (5)(a), yn lle "£4,625" rhodder "£4,765".

(**1**) O.S. 2017/47 (Cy. 21), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018**

**4.** Yn Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018(**1**), yn rheoliad 40 (swm benthyciad at ffioedd dysgu), ym mharagraff (3), yn Nhabl 2—

(a) yng Ngholofn 1, ar ôl “Sy’n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2024” mewnosoder “ond cyn 1 Medi 2025”;

(b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnodion a ganlyn yn y tabl—

(**1**) O.S. 2018/191 (Cy. 42); y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2018/814 (Cy. 165), O.S. 2019/235 (Cy. 54), O.S. 2020/153 (Cy. 27) ac O.S. 2024/144 (Cy. 31).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2025 | 1 | Darparwr arferol | Cymru | £9,535: cwrs llawnamser<br>£2,625: cwrs rhan-amser |
| | | | Mannau eraill yn y DU | £9,535: cwrs llawnamser<br>£7,145: cwrs rhan-amser |
| | | Sefydliad preifat | Cymru | £6,355: cwrs llawnamser<br>£2,625: cwrs rhan-amser |
| | | | Mannau eraill yn y DU | £6,355: cwrs llawnamser<br>£4,765: cwrs rhan-amser |
| | 2 | Darparwr arferol | Cymru a mannau eraill yn y DU | £4,765 |
| | | Sefydliad preifat | Cymru a mannau eraill yn y DU | £3,175 |
| | 3 | Darparwr arferol | Cymru a Lloegr | £1,905 |
| | | | Yr Alban a Gogledd Iwerddon | £4,765 |
| | | Sefydliad preifat | Cymru a Lloegr | £1,270 |
| | | | Yr Alban a Gogledd Iwerddon | £3,175 |
| | 4 | Darparwr arferol | Cymru a Lloegr | £1,430 |
| | | | Yr Alban a Gogledd Iwerddon | £4,765 |
| | | Sefydliad preifat | Cymru a Lloegr | £950 |
| | | | Yr Alban a Gogledd Iwerddon | £3,175 |
| | 5 | Darparwr arferol | Cymru a mannau eraill yn y DU | £6,070 |
| | 6 | Darparwr arferol | Cymru, Lloegr a'r Alban | £1,430" |

*Vikki Howells*
Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
19 Chwefror 2025